**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**National Assembly for Wales**
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Rebecca Evans AC
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

3 Gorffennaf 2019

Annwyl Rebecca

**Rheoliadau'r Amgylchedd (Swyddogaethau Deddfwriaethol o Gyfarwyddebau) (Ymadael Â'r UE) 2019**

Yn ei gyfarfod ar 24 Mehefin 2019, trafododd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ddatganiad ysgrifenedig Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd o dan Reol Sefydlog 30C, ar gyfer y rheoliadau a enwir uchod.

Rydym yn pryderu nad yw'r datganiad ysgrifenedig yn ddigon penodol ar gyfer asesu'r effaith y gallai'r Rheoliadau hyn ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol. Er enghraifft, mae'r paragraffau o dan y pennawd "Ansawdd Aer, Dŵr a Sŵn Amgylcheddol" yn cadarnhau'r gyfraith fel y'i nodir yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006*, ond nid ydynt yn cynnwys asesiad o effaith benodol y Rheoliadau ar gymhwysedd deddfwriaethol yn y meysydd polisi hynny.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech roi eglurhad ar y mater hwn cyn gynted â phosibl.

Yn gywir

**Mick Antoniw AC**
Cadeirydd

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.